Beibl i Blant
yn cyflwyno

Iesu'n gwella dyn dall



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Janie Forest

Cyfieithydd: Catrin Roberts
addaswyd gan: Ruth Klassen

Stori 50 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, *PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh

Dyn dall oedd Bartimeus. Byddai'n eistedd ar ochr y ffordd wrth ymyl Jericho yn cardota. Byddai pobl garedig yn rhoi ychydig bach o arian neu damaid o fwyd iddo wrth iddyn nhw basio heibio.

1

Doedd Bartimeus ddim yn gallu gweithio achos doedd e ddim yn gallu gweld.

2

Un diwrnod, roedd y ffordd fawr yn brysur. Clywodd Bartimeus sŵn traed llawer o bobl. Roedd rhywbeth anarferol yn digwydd.

3

Cyn hir, fe wnaeth y dyn dall ddeall beth oedd yn mynd ymlaen. Roedd Iesu o Nasareth wedi dod i'r dref. Daeth tyrfa o bobl i weld a gwrando ar Iesu.



4

"Iesu! Fab Dafydd! Helpa fi!" Pam fod Bartimeus yn gweiddi? Oedd e'n meddwl bod Iesu'n gallu ei helpu? Efallai ei fod wedi clywed bod Iesu wedi gwella pobl eraill – pobl yn methu clywed, methu siarad, methu cerdded – a rhai yn methu gweld.

5

"Fab Dafydd, helpa fi," gweiddai Bartimeus drosodd a throsodd. Roedd ei lais yn llawn gobaith.

6

Roedd Bartimeus yn siŵr o un peth. Dyma ei gyfle i gael help. Efallai na fyddai'n cael cyfle i ddod yn agos at Iesu eto.

7



Roedd yn rhaid i Bartimeus fynd at Iesu. Ond doedd neb yn barod i symud. "Sssssshh!" medden nhw. Cafodd ei rybuddio i fod yn dawel.

8



Ond doedd Bartimeus ddim am fod yn ddistaw, daliodd ati i weiddi. Yna stopiodd Iesu yn sydyn! A gwrando! A dweud wrthyn nhw am ddod â'r dyn dall ato. "Cod dy galon! Mae'n galw amdanat ti. Tyrd!" meddai'r bobl wrth Bartimeus.

9

Taflodd Bartimeus ei glogyn i ffwrdd, neidiodd i fyny a mynd at Iesu.



10

"Beth ga i wneud i ti?" gofynnodd Iesu. Beth fyddai eich ateb chi? Fyddech chi wedi gofyn am arian mawr neu ddillad newydd smart? Oedd Bartimeus eisiau hynny?



11

Na, doedd Bartimeus dall ddim am ofyn i Iesu am aur neu ddillad newydd. Ydych chi'n gwybod am beth ofynnodd e?

12

"Dw i eisiau gweld." Roedd Bartimeus eisiau gweld! Gweld y coed a'r adar a byd hardd Duw.

13

Roedd e eisiau gweld er mwyn gallu gweithio, a pheidio bod yn gardotyn.

14

Yna dywedodd Iesu wrth Bartimeus: "Dos, am i ti gredu rwyt wedi dy iacháu."



15

Yn sydyn roedd e'n gallu gweld, … a dilynodd Iesu ar hyd y ffordd.

16

Roedd yn ail-adrodd y geiriau "Mae Duw yn rhyfeddol! Mae Duw wedi fy ngwella!" Roedd Bartimeus mor hapus.

17

Dechreuodd pawb foli Duw wrth weld hyn yn digwydd. Unwaith eto, roedden nhw wedi gweld gallu mawr Iesu, Mab Duw, yn gwella cardotyn tlawd, dall a'i helpu i weld eto.



18

Iesu'n gwella dyn dall

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Marc 10, Luc 18, Ioan 9

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!